# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer cyllido gofal plant gan Weinidogion Cymru ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio; ac at ddibenion cysylltiedig. [30 Ionawr 2019]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Darparu cyllid ar gyfer gofal plant*

**1 Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid mewn cysylltiad â darparu gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio.

(2) Rhaid i reoliadau bennu faint o ofal plant sydd i'w sicrhau yn rhinwedd y cyllid a ddarperir o dan is-adran (1).

(3) Mae plentyn cymhwysol rhieni sy'n gweithio yn blentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol—

(a) sydd yng Nghymru;

(b) sydd o oedran (neu o fewn ystod oedran) a bennir mewn rheoliadau;

(c) sy'n bodloni unrhyw amodau eraill a bennir mewn rheoliadau;

(d) y mae datganiad wedi cael ei wneud mewn cysylltiad ag ef, yn unol â rheoliadau, i'r perwyl bod gofynion paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni neu'n parhau i gael eu bodloni.

(4) Caiff amodau a bennir o dan is-adran (3)(c) mewn cysylltiad â phlentyn ymwneud (ymhlith pethau eraill) ag addysg gynradd (o fewn yr ystyr a roddir i "primary education" yn adran 2(1)(a) o Ddeddf Addysg 1996) a geir gan y plentyn neu a roddir ar gael iddo.

(5) Caiff amodau a bennir o dan is-adran (3)(c) mewn cysylltiad â phlentyn hefyd ymwneud â rhiant i'r plentyn, neu bartner i riant i'r plentyn, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) â gwaith am dâl a wneir gan riant neu bartner.

(6) Caiff darpariaeth a wneir o dan is-adran (3)(d) mewn cysylltiad â datganiad gynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth ynghylch pryd y mae datganiad i'w wneud, hyd datganiad, ac amodau sydd i'w bodloni gan berson sy'n gwneud datganiad.

(7) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth, at ddibenion yr adran hon, ynghylch—

(a) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, plentyn i'w ystyried fel pe bai yng Nghymru;

(b) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, person i'w ystyried yn bartner i berson arall;

(c) amgylchiadau pan fo, neu pan na fo, person i'w drin fel pe bai'n gwneud gwaith am dâl.

(8) At ddibenion yr adran hon, mae "rhiant", mewn perthynas â phlentyn, yn cynnwys—

(a) unrhyw unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn yr ystyr a roddir i "parental responsibility" yn Neddf Plant 1989 (p. 41)) dros y plentyn;

(b) unrhyw unigolyn a chanddo ofal am y plentyn.

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at reoliadau yn gyfeiriadau at reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

*Pŵer i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chyllido gofal plant*

### 2 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gweinyddu etc. cyllid

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch gweinyddu a gweithredu unrhyw drefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 1.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir iddi gael ei gwneud drwy'r rheoliadau yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) ddarpariaeth o fewn adrannau 3 i 7.

(3) Mae cyfeiriadau yn yr adrannau hynny at "y rheoliadau" yn gyfeiriadau at reoliadau o dan yr adran hon.

*Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth*

### 3 Gofyniad i rieni etc. ddarparu gwybodaeth

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau neu wybodaeth a bennir yn y rheoliadau, neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(2) Ond ni chaniateir i ofyniad gael ei osod ar berson yn rhinwedd yr adran hon oni bai bod y person wedi gwneud, neu ei fod yn gwneud, ddatganiad o dan adran 1(3)(d).

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i gosb gael ei gosod ar berson sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cysylltiad â gofyniad a osodir yn rhinwedd yr adran hon.

(4) Yn is-adran (3) ystyr "anwir neu gamarweiniol" yw anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.